TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Photography

Yn gryno

Mae hwn yn gwrs hwyliog a chreadigol sy'n cynnig cyfle i chi archwilio a datblygu eich gwybodaeth o ffotograffiaeth ddigidol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

Unigolion sy'n megis dechrau arni neu unigolion creadigol profiadol sydd â diddordeb brwd mewn ffotograffiaeth.

Cynnwys y cwrs

Cyflwynir y cwrs hwn drwy ddosbarth gyda'r nos. Bob wythnos, byddwch yn cael cyfle i ehangu eich profiad o ffotograffiaeth ddigidol. Byddwn yn archwilio gwahanol dechnegau o ffotograffiaeth, defnyddio ein stiwdio ffotograffig broffesiynol a dysgu sut i brosesu eich darlunio gan ddefnyddio rhaglenni Adobe CC (Photoshop, Bridge & Lightroom).

Erbyn diwedd y cwrs, dylech deimlo'n hyderus ac yn gallu defnyddio'r technegau a ddysgoch

yn ystod y cwrs i ddatblygu'ch diddordeb mewn ffotograffiaeth.

I wneud y mwyaf o'r cwrs, bydd angen ichi fod â chamera SLR digidol.

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Ysgol y Celfyddydau Creadigol yn cynnig cyfres o gyrsiau ar nos Fercher am 6-9pm trwy gydol y flwyddyn. Mae pob cwrs yn rhedeg am 6 wythnos, gan ddechrau a gorffen ar yr un dyddiadau a'r gost yw £40.

Y cyrsiau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd yw; Gwneud Gemwaith, Serameg, Ffotograffiaeth, Argraffu 3D, Gwneud Printiau, Tecstilau, Lles Creadigol ac Ymarfer Celfyddydau, Sgiliau DG yn Defnyddio Ableton Live, Celfyddydau Perfformio a Chanu er Pleser.

Ar gyfer y cwrs hwn, bydd angen i chi gael Camera SLR Digidol.

Mae Dyddiadau Dechrau Cyrsiau fel a ganlyn:

09/11/2022 - 14/12/2022
11/01/2023 - 15/02/2023
19/04/2023 - 24/05/2023